Brwydro yn enw'r ferch

(penderfyniad / dewrder / gweledigaeth)

"Bob nos cyn mynd i'w wely byddai fy nhad yn galw yn ystafelloedd gwely'r plant. Pan fyddwn i'n clywed sŵn ei draed yn dod i fyny'r grisiau byddwn yn cymryd arnaf fy mod yn cysgu'n sownd. Byddai'n plygu i lawr i edrych arnaf a droeon clywais ef yn sibrwd uwch fy mhen. 'Mae'n biti na fuaset ti'n fachgen.' Roeddwn eisiau codi ar fy eistedd y munud hwnnw a phrotestio'n chwyrn. Ond ar ôl iddo fynd i ystafelloedd y plant eraill byddwn yn teimlo'n anniddig. Pam oedd eisiau dweud hynny mor aml? Oedd o wedi cael ei siomi fy mod yn ferch ac nid yn fachgen? Arhosodd ei frawddeg gyda mi weddill fy oes."

Ar ôl cyfnod mewn ysgol ym Manceinion anfonwyd Emmeline i ysgol arbennig ym Mharis pan oedd yn bymtheg oed. Pan ddychwelodd i Fanceinion daeth yn ffrindiau â chyfreithiwr o'r enw Richard Pankhurst. Cyn pen dim, a hithau'n ddim ond ugain oed priododd â'r cyfreithiwr ac yntau'n 44 oed. Ganed pedwar o blant iddynt ym mlynyddoedd cyntaf y briodas. Roedd dylanwad ei mam yn gryf ar Emmeline gan ei bod hi gydol ei hoes wedi brwydro'n galed dros iawnderau merched.

Symudodd hi a'i gŵr o Fanceinion i Lundain er mwyn parhau'r frwydr. A'r fath frwydr oedd hi! Yn gyntaf bu'n trafod â'r aelodau seneddol i geisio newid y cyfreithiau ynglŷn â hawliau merched. Trefnodd gyfarfodydd, sgwennodd lythyrau, daeth i gysylltiad â phobl enwog a dylanwadol ac aeth o gwmpas i roi sgyrsiau, ond ofer oedd y cyfan i gyd. Yn wir, roedd llawer iawn o'r gwragedd eu hunain yn filain iawn wrthi am ymddwyn mewn ffordd nad oedd yn gweddu i ferch ifanc o'i chefndir hi. Ym marn dynion, ffôl oedd hi.

Mae yna stori ei bod wedi dweud wrth un o'r merched oedd yn brwydro efo hi, "Ferched, credwch yn Nuw. Bydd hi'n siŵr o ofalu amdanoch." Ond stori yw hon, heb fawr o goel iddi! Penderfynodd ei bod wedi cael digon. Galwodd gyfarfod brys. "Ferched," meddai, "mae'r amser wedi dod i ni, fel y dynion, gael pleidleisio. Does yna ddim amdani ond torri'r gyfraith a'n gwneud ein hunain yn niwsans ymhob rhan o fywyd. Byddwch yn barod i fynd i'r carchar. Efallai bryd hynny bydd yr aelodau seneddol yn barod i wrando wedyn."

Aeth y merched allan o'r cyfarfod hwnnw yn barod i weithredu. Ymhen dyddiau roedd rhai wedi taflu cerrig at rai aelodau seneddol a rhai eraill wedi torri ffenestri rhif 10 Stryd Downing. Bu eraill yn chwistrellu paent yn yr orielau a'r lleill wedi cadwyno'u hunain tu allan i dai rhai o aelodau'r Tŷ Cyffredin. Ar ôl iddyn nhw ddod gerbron y llys, doedden nhw ddim yn barod i dalu dirwyon a'r hyn oedd yn eu hwynebu oedd cyfnod yn y carchar. Bu Emmeline yn y carchar droeon.

Ymlaen yr aeth y brwydro a'r naill ochr yn gwrthod ildio i'r ochr arall. Pan dorrodd y Rhyfel Byd Cyntaf, a'r dynion yn mynd i frwydro, penderfynodd Mrs Pankhurst roi'r gorau i'r ymgyrch a mynnodd fod y merched yn gwneud gwaith y dynion yn y ffatrïoedd, ar y stryd ac yn y gweithfeydd er mwyn dangos eu bod yn medru gwneud y gwaith gystal â'r dynion.

Ym mlwyddyn olaf y rhyfel penderfynodd y Llywodraeth fod merched dros 30 oed i gael yr hawl i bleidleisio. Ond doedd Mrs Pankhurst ddim yn fodlon ar hyn. Brwydrodd ymlaen ac ymhen 10 mlynedd cafodd pob merch dros 21 oed yr hawl i bleidleisio. Ar y diwrnod y caniatawyd y bleidlais bu farw Emmeline Pankhurst yn 71 oed. Roedd wedi brwydro'n galed i newid meddyliau pobl a hynny trwy ddioddef llawer ei hunan.

Adnod: "Gofynnwch, ac fe roddir i chwi; chwiliwch, ac fe gewch; curwch, ac fe agorir i chwi." Mathew 7: 7

Gweddi: Dysg fi, O Arglwydd, i beidio bod yn llwfr a derbyn pob dim ond i frwydro dros yr hyn sy'n dda a chyfiawn. Amen.

Trafod:

- Beth oedd yr enw a roddwyd ar Pankhurst a'i dilynwyr? Beth ydi ystyr yr enw?
- Beth ydi'ch barn chi am bobl sy'n torri'r gyfraith?